Pecyn Dogfen Cyhoeddus

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

At: Is-Bwyllgor Trwyddedu

Dyddiad: 22 Mawrth 2019

Rhif Union: 01824 712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU, DYDD LLUN, 1 EBRILL 2019** am **10.00 am** yn **YSTAFELL BWYLLGOR 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**1 PENODI CADEIRYDD**

Penodi Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu yn y busnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**CAIS I'W YSTYRIED -**

**3 DEDDF TRWYDDEDU 2003: CAIS AM DRWYDDED PERSONOL – YMGEISYDD RHIF 535038** (Tudalennau 5 - 16)

Ystyried cais am Drwydded Bersonol gan Ymgeisydd Rhif 535038 a gyflwynwyd yn unol â Rhan 6 Deddf Trwyddedu 2003 (mae amlinelliad o'r cais a phapurau cysylltiol wedi eu hatodi).

Nodwch y drefn i'w chymryd gan yr Is-Bwyllgor (sydd ynghlwm wrth y rhaglen hon).

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

Hugh Irving
Alan James

Huw Williams

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

## Y DREFN AR GYFER CEISIADAU A WNEIR DAN Y DDEDDF TRWYDDEDU 2003

| Cam | Disgrifiad |
|---|---|
| 1. | Mae Cadeirydd yr Is-Bwyllgor Trwyddedu yn agor y Gwrandawiad ac yn croesawu pawb sy'n bresennol. Mae'n cyflwyno'r Cydweithwyr ar yr Is-Bwyllgor a'r Swyddogion sy'n Bresennol. |
| 2. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd y Swyddog Trwyddedu i gyflwyno'r Cais. |
| 3. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd yr Ymgeisydd (neu'r Cynrychiolydd Penodedig) i gyflwyno'r Cais. |
| 4. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd unrhyw Awdurdodau Cyfrifol (e.e. Heddlu, Gwasanaeth Tân) i gyflwyno eu sylwadau. |
| 5. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu i ofyn cwestiynau i'r Ymgeisydd neu'r Awdurdodau Cyfrifol. |
| 6. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd y Rhai â Diddordeb i gyflwyno eu sylwadau. |
| 7. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu i ofyn cwestiynau i'r Rhai â Diddordeb ac i egluro unrhyw bwyntiau gyda'r Ymgeisydd. |
| 8. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd yr Ymgeisydd (neu'r Cynrychiolydd Penodedig) i wneud datganiad terfynol. |
| 9. | Bydd Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu yn ymneilltuo i ystyried eu penderfyniad, gyda'r Clerc i'r Gwrandawiad a'r Ymgynghorydd Cyfreithiol i'w canlyn. |
| 10. | Mae Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu yn dychwelyd gyda'u penderfyniad ar y Cais, gyda rhesymau i'w gefnogi. |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Is-bwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 1 Ebrill 2019 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Uwch Swyddog Technegol (Trwyddedu) 01824 706451 trwyddedu@sirddinbych.gov.uk |
| **TESTUN:** | **Deddf Trwyddedu 2003<br>Cais am Drwydded Bersonol<br>Ymgeisydd Rhif: 535038** |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi derbyn cais am Drwydded Bersonol newydd, a gyflwynwyd yn unol â Rhan 6 Deddf Trwyddedu 2003. O ganlyniad i'r ymgynghoriad angenrheidiol, mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi derbyn sylwadau perthnasol sydd yn gwrthwynebu'r Cais. Mae angen i'r Is-bwyllgor wneud penderfyniad ynglŷn â'r cais, gan ystyried yr holl ffeithiau/tystiolaeth perthnasol.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Mae hwn yn gais am Drwydded Bersonol newydd. Mae'r sylwadau yn ymwneud ag Atal Troseddu ac Anhrefn.

2.2 Atgoffir Aelodau bod yn rhaid i unrhyw benderfyniad a wneir fod yn unol â (i) Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor a (ii) Chanllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

2.3 Gan weithredu yn rhinwedd Awdurdod Trwyddedu, rhaid i Aelodau geisio hybu'r Amcanion Trwyddedu, ac os yw Aelodau'n ystyried bod materion yn gysylltiedig ag un neu fwy o amcanion, gallant arfer eu disgresiwn.

2.4 Atgoffir Aelodau'r Is-bwyllgor Trwyddedu na allant arfer eu disgresiwn mewn unrhyw achos, am eu bod yn ystyried bod hynny'n ddymunol, a dylid rhoi rheswm (rhesymau) dros unrhyw benderfyniad a wneir, neu os penderfynir gwyro mewn unrhyw ffordd o'r Protocol, y Polisi neu'r Canllawiau.

## 3. ARGYMHELLION

### 3.1 Penderfyniad yr Is-bwyllgor

Mae'n rhaid i'r Is-bwyllgor, o ystyried y sylwadau a wneir, gymryd camau o'r fath (isod) y maent yn eu hystyried yn angenrheidiol er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

Gall yr Is-bwyllgor:

- Gymeradwyo'r cais.
- Gwrthod y Cais

## 4.0 GWYBODAETH GEFNDIROL

4.1 Ar 14 Chwefror 2019, derbyniodd yr Awdurdod Trwyddedu gais am Drwydded Bersonol. Mae'r cais wedi ei gyflwyno gan Manchester License Training ar ran Ymgeisydd Rhif 535038.

4.2 Mae'r Deddf Trwyddedu yn diffinio "Trwydded Bersonol" fel trwydded a ganiateir i unigolyn gan Awdurdod Trwyddedu, sydd yn awdurdodi'r unigolyn hwnnw i gyflenwi alcohol, neu i awdurdodi cyflenwi alcohol, yn unol â thrwydded safle. Mae Trwydded Bersonol yn weithredol am nifer anghyfyngedig o flynyddoedd, oni bai y caiff ei ildio, ei dynnu'n ôl, ei atal dros dro neu ei fforffedu.

4.3 Mae'r gofynion ar gyfer Trwydded Bersonol wedi eu rhagnodi gan Ran 6 y Ddeddf Trwyddedu. Er mwyn i'r drwydded gael ei chymeradwyo, mae'n rhaid i'r ymgeisydd fodloni'r meini prawf canlynol:

- mae'n rhaid i ymgeisydd fod dros 18 oed;
- rhaid iddynt feddu ar y cymwysterau trwyddedu perthnasol;
- rhaid iddynt beidio â bod wedi gorfod fforffedu trwydded bersonol o fewn y 5 mlynedd blaenorol; ac
- rhaid iddynt beidio â bod eu heuogfarnu o unrhyw drosedd berthnasol neu drosedd dramor.

4.4 Os oes unrhyw un o'r tri maen prawf cyntaf nas bodlonir, mae'n rhaid i'r Awdurdod Trwydded wrthod y cais. Lle bo'r tri cyntaf yn cael eu bodloni ond bod yr ymgeisydd yn methu â bodloni'r pedwerydd, mae'n rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu hysbysu pennaeth yr heddlu os yw'r ymgeisydd wedi derbyn euogfarn o unrhyw drosedd berthnasol neu dramor.

4.5 Unwaith y byddant wedi eu hysbysu, mae gan yr heddlu 14 diwrnod i wrthwynebu'r cais os ydynt yn ystyried y byddai cymeradwyo'r drwydded

yn tanseilio amcanion atal troseddu'r Ddeddf Trwyddedu. Lle y derbynnir gwrthwynebiadau, mae'n rhaid i'r Awdurdod gynnal Gwrandawiad lle y bydd cyfle i'r ddau barti gyflwyno eu dadleuon.

4.6 Sylwadau Perthnasol

Mae'r Ymgeisydd wedi datgan manylion Troseddau Perthnasol, ac mae sylwadau yr ystyrir eu bod yn berthnasol gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd wedi eu derbyn gan yr heddlu o fewn y cyfnod rhagnodedig. Mae modd archwilio copi o'r sylwadau yn **Atodiad A** i'r adroddiad hwn, ynghyd â chopi o'r cais yn **Atodiad B**. Mae manylion ynglŷn â'r troseddau ynghlwm â'r adroddiad hwn yn **Atodiad C.**

4.6.1 Mae'r Ymgeisydd a'u hasiant wedi eu hysbysu o'r ffaith fod sylwadau wedi eu derbyn, ac wedi cael eu gwahodd i'r Gwrandawiad.

**Ystyriaethau Amcanion / Canllawiau / Polisi Trwyddedu**

4.6.2 Mae'r sylwadau perthnasol yn gysylltiedig â'r amcanion trwyddedu.

Cyfeirir yr Is-bwyllgor, mewn perthynas â'r cais hwn, at y canllawiau a roddwyd dan Adran 182 Deddf Trwyddedu 2003:

- Trwyddedau Personol **Adran 4**
- Atal Trosedd ac Anrhefn **Adran 2.1 i 2.6**

Datganiad Polisi Trwyddedu

4.6.3 Cyfeirir yr Is-bwyllgor, mewn perthynas â'r cais hwn, at Ddatganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor:

- Atal Trosedd ac Anrhefn **Adran 3.1**

4.7 Yn olaf, atgoffir yr Aelodau hefyd bod yn rhaid iddynt ystyried y canlynol wrth wneud penderfyniad ynglŷn â'r cais yn unol â'r Ddeddf Trwyddedu –

- Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 sy'n rhoi dyletswydd ar Aelodau i atal/lleihau trosedd ac anhrefn yn yr ardal
- Rheolau cyfraith gyffredin o gyfiawnder naturiol
- Darpariaethau Deddf Hawliau Dynol 1998

**5.0 SYLWADAU'R SWYDDOGION**

5.1 Mae Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd wedi cyflwyno'r sylwadau canlynol i gynorthwyo Aelodau gyda'u hystyriaethau.

5.2 At bwrpas cael gafael ar Drwydded Bersonol, troseddau perthnasol neu dramor nad ydynt yn dreuliedig o dan dermau Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 yn unig sydd angen i ymgeiswyr eu datgan.

5.3 Mae'r Ymgeisydd wedi datgan euogfarn am drosedd berthnasol anhreuliedig (Atodi A). Er gwybodaeth Aelodau, manylir ar ddiffiniad trosedd berthnasol yn a.113 Atodlen 4 i'r Ddeddf Trwyddedu, ond mae troseddau perthnasol yn cynnwys:

- rhai sy'n cynnwys troseddu difrifol;
- rhai sy'n cynnwys anonestrwydd difrifol;
- rhai sy'n cynnwys cyffuriau rheoledig;
- troseddau rhywiol penodol, a
- throseddau a grëwyd gan y Ddeddf Trwyddedu

5.4 Wrth ystyried y cais hwn, mae'n bosib y bydd Aelodau yn dymuno cyfeirio at y Canllawiau a gyhoeddwyd o dan Adran 182 Deddf Trwyddedu 2003. Mae Adran 4.24 yn nodi, er ei bod yn bosib na fydd rhai troseddau yn cael eu treulio byth o dan dermau'r Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr, yn amodol ar allu ymgeisydd i ddangos nad oes ganddynt bellach duedd i aildroseddu, y gallai fod yn briodol cymeradwyo cais am drwydded os yr Aelodau yn fodlon nad yw gwneud hynny yn tanseilio'r Amcan Atal Troseddu.

## 6.0 CRYNODEB

6.1 Fe ddylai Aelodau ystyried y Canllawiau a Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor yn ofalus, gan gyfeirio'n arbennig at y meysydd a amlygir yn yr adroddiad hwn. Atgoffir Aelodau mai ar sail tystiolaeth/rheswm da yn unig y dylid gwyro oddi wrth y Polisi.

6.2 Bydd yn rhaid i Aelodau benderfynu a fyddai cymeradwyo'r cais hwn yn hyrwyddo amcan atal trosedd ac anhrefn y Ddeddf Trwyddedu.

6.3 Yn sgil y sylwadau sydd wedi dod i law gan Heddlu Gogledd Cymru, bydd yr Aelodau yn dymuno ystyried y cais hwn am Drwydded Bersonol yn ofalus.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag